Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 18 Hydref 2017

**Paratowyd ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nia Moss**
Dyddiad: **Hydref 2017**
Rhif Papur: **17-027**

## Cysylltwch â ni

**Nia Moss**
**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6313**
: **Nia.Moss@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 18 Hydref 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau'n ymwneud â'r Negodiadau ar Erthygl 50 ynglŷn ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ers 20 Medi 2017. Mae dau gylch arall o negodiadau wedi'u trefnu ers i adroddiad monitro gael ei gynhyrchu ddiwethaf ar gyfer y Pwyllgor. Disgwylir i'r Cyngor Ewropeaidd bleidleisio ar a oes cynnydd digonol wedi'i wneud i ganiatáu i drafodaethau symud ymlaen o drafod telerau'r Cytundeb Ymadael i drafod telerau cyfnod pontio neu berthynas â'r UE yn y dyfodol ar 20 Hydref.

Mae'r papur yn darparu:

– Crynodeb o'r datblygiadau a'r dogfennau diweddaraf a gyhoeddwyd

– Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ('y Pwyllgor');

– Ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Daeth pumed cylch a chylch terfynol y negodiadau a drefnwyd ar gyfer cam cyntaf y trafodaethau ar ymadael i ben ddydd Iau 12 Hydref. Disgrifiodd **Michel Barnier**, negodwr yr Undeb Ewropeaidd, y trafodaethau fel rhai lle roedd anghytundeb llwyr a dywedodd nad oedd cynnydd digonol wedi'i wneud ar y cytundeb ymadael.

Yn ogystal, ar 3 Hydref **pleidleisiodd Senedd Ewrop o blaid** penderfyniad sy'n amlinellu ei barn nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud.

Cyn hynny, gwnaeth y Prif Weinidog, Theresa May, **ddatganiad** i arweinwyr yr Aelod-wladwriaethau yn Fflorens ar 22 Medi lle yr amlinellodd y byddai'r DU yn anrhydeddu ei hymrwymiadau cyllidebol cyfredol yn gyfnewid am gyfnod pontio dwy flynedd ar ôl 2019.

Rhoddodd y Prif Weinidog hefyd **ddiweddariad i Senedd y DU** ar 9 Hydref lle y dywedodd fod Llywodraeth y DU yn paratoi ar gyfer senario 'dim cytundeb' er nad dyma oedd ei dewis. Cyhoeddwyd hefyd ddau bapur gwyn ar drefniadau masnach a thollau ar gyfer y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cyfarfu'r Cyngor Ewropeaidd ar **20 Hydref i ystyried y cynnydd a wnaed** yn y negodiadau hyd yma. Daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd cynnydd digonol wedi'i wneud ar gam un y negodiadau er mwyn galluogi'r trafodaethau i symud ymlaen i gytundeb pontio a pherthynas y DU yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Ar **lefel cartref, cyfarfu'r Cydbwyllgor Gweinidogion ar y Negodiadau Ewropeaidd, JMC EN, yn Llundain ar 16 Hydref**. Yn y cyfarfod, rhoddodd David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran y negodiadau'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, a Gweinidog Negodiadau Ewropeaidd Llywodraeth yr Alban, Michael Russell. Cyfarfu **fforwm rhyng-seneddol newydd ar Brexit** sy'n cynnwys Cadeiryddion y Pwyllgorau Ewropeaidd a Chyfansoddiadol o ddeddfwrfeydd o bob cwr o'r DU yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref.

# 2. Y datblygiadau diweddaraf a dogfennau a gyhoeddwyd

## Y Negodiadau

Mae dau gylch arall o negodiadau wedi digwydd ers y diweddariad diwethaf a roddwyd i'r Pwyllgor. Cynhaliwyd y pedwerydd cylch o negodiadau rhwng 25 Medi a 28 Medi yn dilyn araith y Prif Weinidog yn Florence ar 22 Medi.

Ar 22 Medi **gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad** ar y negodiadau yn Florence. Yn yr araith hon gwnaeth y Prif Weinidog nifer o gyhoeddiadau:

- Byddai'r DU yn ceisio cael cytuniad diogelwch newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd ar gydweithredu mewn perthynas â chyfiawnder, troseddau a diogelwch;
- Byddai'r cytundeb ar hawliau dinasyddion gyda'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei gynnwys yn neddf gwlad y DU ac y byddai Llysoedd y DU yn gallu ystyried dyfarniadau Llys Cyfiawnder Ewrop ar y cytundeb i sicrhau dehongliad cyson;
- Cadarnhawyd na fyddai'r DU yn ceisio bod yn rhan o'r farchnad sengl na'r undeb tollau ac ni fyddai'n gofyn am aelodaeth o'r Ardal Economaiadd Ewropeaidd na Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop;
- Byddai Llywodraeth y DU yn cefnogi cyfnod pontio dwy flynedd lle y byddai'r DU yn parhau i gadw at reolau a rheoliadau'r UE a byddai'n parhau i gymryd rhan mewn rhai rhaglenni'r UE yn gyfnewid am fynediad parhaus i'r farchnad;
- Byddai Llywodraeth y DU yn anrhydeddu ei hymrwymiad ariannol presennol a gytunwyd o dan gylch cyllideb presennol yr UE.

Ar ddiwedd y pedwerydd cylch o negodiadau dywedodd Michel Barnier a David Davis fod yr araith a wnaed gan y Prif Weinidog yn Fflorens wedi rhoi momentwm newydd i'r trafodaethau. Daeth Mr Barnier i'r **casgliad fod y trafodaethau** wedi bod yn adeiladol ond nad oeddent yn gyfystyr â chynnydd digonol. **Dywedodd Mr Davies** fod camau pendant ymlaen wedi cael eu cymryd.

Ar 3 Hydref **pleidleisiodd Senedd Ewrop o blaid** penderfyniad a baratowyd gan Weithgor Brexit y Senedd yn nodi ei farn ar y cynnydd a wnaed o ran y negodiadau hyd yn hyn. Mae'r penderfyniad yn nodi barn Senedd y DU bod cynnydd annigonol wedi'i wneud i ganiatáu i'r negodiadau symud o drafodaethau cam un ar y cytundeb ymadael i drafodaethau cam 2 ar y berthynas yn y dyfodol. Mae Senedd Ewrop yn galw ar y Cyngor Ewropeaidd i ohirio neu oedi ei benderfyniadau ynghylch a ddylai'r negodiadau fynd rhagddynt.

Yn ogystal â'i farn ar gynnydd digonol, galwodd Senedd Ewrop hefyd am ragor o amddiffyniadau mewn perthynas â hawliau dinasyddion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd. Amlinellodd ei farn y dylid rhoi rôl i Lys Cyfiawnder Ewrop o ran amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Galwodd y Senedd hefyd am roi sicrwydd i ddinasyddion Gogledd Iwerddon na fyddant yn colli unrhyw un o'u hawliau presennol. Mae'r penderfyniad yn nodi y byddai'n rhaid i unrhyw gytundeb pontio gydymffurfio â chorff cyfan cyfraith Ewrop, gan gynnwys y pedwar rhyddid a gynhwysir yn y farchnad sengl. Galwodd y penderfyniad am fwy o eglurder gan y DU ar ei sefyllfa o ran y setliad ariannol ac i'r DU anrhydeddu'r holl ymrwymiadau ariannol y mae wedi eu cronni drwy ei aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

**Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad hefyd i Senedd y DU ar 9 Hydref** gan amlinellu cynnydd ar y negodiadau. Ailadroddodd y Prif Weinidog nifer o'r safbwyntiau a gyhoeddwyd yn ei haraith yn Florence. Ailadroddodd y Prif Weinidog, pe cytunwyd ar drefniant pontio yn cael ei gytuno, y byddai'r DU yn ymrwymo i gadw at reolau a rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd. Amlinellodd y byddai'r DU yn cynnal trafodaethau ar gytundebau masnach newydd gyda gwledydd nad oeddent yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y cyfnod pontio ond na fyddai'n cadarnhau'r cytundebau hyn tan ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Cynhaliwyd pumed cylch a chlych terfynol y negodiadau rhwng 9 a 12 Hydref. Yn ei gynhadledd i'r wasg ar ddiwedd y trafodaethau ar 12 Hydref **dywedodd Mr Barnier**:

- Fod y trafodaethau wedi bod yn adeiladol ac wedi arwain at gynnydd ar y tri phrif faes trafod ond ni chymerwyd camau breision tuag at gytundeb.
- O ran hawliau dinasyddion, roedd Mr Barnier yn croesawu cynnig y DU am broses symlach i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd gofrestru yn y DU ar ôl iddi adael ac ar ymrwymiad y DU i ymgorffori'r cytundeb ar hawliau dinasyddion yn neddf gwlad y DU. Fodd bynnag, dywedodd fod angen cynnydd pellach ar rôl Llys Cyfiawnder Ewrop, aduno aelodau teulu, ac allforio manteision cymdeithasol ar ôl Brexit.
- O ran Iwerddon a Gogledd Iwerddon, amlinellodd Mr Barnier fod cytundeb pellach wedi'i wneud ar gynnal yr Ardal Deithio Gyffredin a datblygu dealltwriaeth gyffredin o fecanweithiau cydweithredu presennol y Gogledd-De.
- O ran y setliad ariannol, dywedodd fod angen eglurhad pellach gan y DU o ba ymrwymiadau ariannol y bydd angen eu hanrhydeddu. Dywedodd fod rhai trafodaethau technegol pellach wedi cael eu cynnal ond roedd y diffyg eglurder yn bryder mawr i drethdalwyr Ewropeaidd.

Daeth Mr Barnier i'r casgliad, oherwydd y diffyg cynnydd a wnaed ar y rhwymedigaethau ariannol, nad oedd mewn sefyllfa i argymell i'r Cyngor Ewropeaidd yn ei gyfarfod ar 20 Hydref fod cynnydd digonol wedi'i wneud. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad y gellir gwneud cynnydd pendant gydag ewyllys wleidyddol yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn gallu dod i gytundeb.

**Yn ei ddatganiad ar ddiwedd y pumed cylch** o negodiadau, dywedodd Mr Davies fod sgyrsiau wedi bod yn adeiladol ac wedi arwain at ymdeimlad o amcanion gwleidyddol cyffredin. Amlinellodd ei gred fod y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn agos at daro bargen ar hawliau dinasyddion a bod cynnydd pellach wedi'i wneud ar y materion sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Dywedodd fod archwiliad manwl o'r manylion technegol ar setliad ariannol wedi digwydd ond ailadroddodd ei farn nad cytuno ar ffigur penodol ar gyfer yr ymrwymiad oedd amcan cam cyntaf y negodiadau. Dywedodd mai dim ond yng nghyd-destun trafodaethau am y berthynas yn y dyfodol y gellid gwneud hynny ac anogodd y Cyngor Ewropeaidd i roi mandad i Mr Barnier symud ymlaen i'r cam hwn o'r trafodaethau.

Rhoddodd Mr Davis **ddiweddariad i Dŷ'r Cyffredin ar y cynnydd** a wnaed yn ystod pedwerydd a phumed cylch y negodiadau ar 17 Hydref. Yn ei ddatganiad, dywedodd Mr Davis wrth yr Aelodau Seneddol:

- Yn ystod y pumed cylch, ymchwiliodd y negodiadau i'r ffyrdd y gellid ymgorffori Cytuniad Ymadael yng Nghyfraith y DU a sut y gellid sicrhau dehongliad cyfreithiol cyson;
- Mae'r Undeb Ewropeaidd a'r DU wedi dod i gytundeb ar hawliau dinasyddion i weithio gyda busnesau a bod yn berchen arnynt; hawliau nawdd cymdeithasol; hawliau i aelodau presennol y teulu, hawliau gofal iechyd cyfatebol a hawliau gweithwyr ffiniol.

- Mae'r materion hawliau dinasyddion sydd heb eu datrys yn cynnwys cydnabod cymwysterau proffesiynol; yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol; yr hawl i ddinasyddion y DU symud rhwng Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, yr hawl i ddychwelyd, yr hawl i ddod ag aelodau o'r teulu i'r wlad yn y dyfodol a'r hawl i allforio rhai budd-daliadau.
- Ar ffiniau Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, mae'r ddwy ochr wedi cytuno ar egwyddorion arweiniol i warchod Cytundeb Dydd Gwener y Groglith ac egwyddorion ar y cyd ar gyfer parhad yr Ardal Deithio Gyffredin a'r hawliau cysylltiedig.
- Roedd yn credu na ellir datrys nifer o faterion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Ymadael heb gael trafodaeth ar y berthynas yn y dyfodol.

Daeth y Cyngor Ewropeaidd **i'r casgliad yn ei gyfarfod ar 20 Hydref** nad wnaed digon o gynnydd ar faterion cam un er mwyn caniatáu i'r trafodaethau symud ymlaen i drafodaethau ar drefniadau trosiannol a pherthynas yn y dyfodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cytunodd y Cyngor y byddai'n cychwyn trafodaethau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar sefyllfa negodi'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas yn y dyfodol gan ddychwelyd i asesu'r cynnydd a wnaed ar faterion cam un yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Ar lefel y DU, cyfarfu cadeiryddion pwyllgorau cyfansoddiadol ac Ewropeaidd o bob deddfwrfa yn y DU ar 12 Hydref yn Nhŷ'r Arglwyddi i sefydlu **fforwm rhyng-seneddol newydd ar Brexit**. Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd ar ôl i'r fforwm ddod i ben lle roedd y cadeiryddion yn galw ar Weinidogion o Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i sicrhau eu bod yn darparu tystiolaeth i bob pwyllgor seneddol ar draws y DU sy'n gweithio ar Brexit. Cynrychiolwyd y Cynulliad gan David Rees AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad a Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad.

Ar 16 Hydref **cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE, JMC EN,** yn Llundain. Mynychodd Gweinidogion o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ynghyd ag uwch weision sifil o Ogledd Iwerddon. Yn ogystal â thrafod y negodiadau parhaus, cytunodd y Gweinidogion ar gyfres o egwyddorion i ategu unrhyw gytundebau ar gyfer fframweithiau polisi cyffredin yn y dyfodol ar feysydd megis amaethyddiaeth yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

## Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Nid yw'r Undeb Ewropeaidd na'r DU wedi cyhoeddi unrhyw bapurau sefyllfa newydd ers i'r adroddiad monitro diwethaf gael ei gyhoeddi ar 20 Medi. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dau bapur newydd ar Fil Tollau a Pholisi Masnach a fydd yn effeithio ar unrhyw negodiadau ar y cytundeb pontio a chytundeb ar y berthynas yn y dyfodol. Mae crynodeb o'r ddwy ddogfen hon wedi'i ychwanegu at y tabl isod. Darperir dadansoddiad pellach yn adran 3.

**Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r DU**

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Essential Principles on Citizens Rights**<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. | **Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU: Position Paper.**<br>26 Mehefin 2017 | Yn amlinellu sefyllfa'r DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd eu mwynhau yn y DU a'r hawliau y dylai gwladolion y DU eu mwynhau yn yr Undeb Ewropeaidd. Gweler **blog** y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o fanylion. |
| **Essential Principles on the financial settlement**<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer methodoleg y dylid cytuno arni yn ystod negodiadau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r Undeb Ewropeaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i'w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim. | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer DEXEU **wedi amlinellu** y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd yn hytrach nag amlinellu ei sefyllfa ei hun. |
| **Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)**<br>23 June 2017 to EU27<br>13 July to UK | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth deunyddiau ymholltog arbennig. Mae'n cwmpasu llai o ardaloedd nag a gynigir gan y DU mewn papur cyfatebol<br>. | **Nuclear material and safeguards issues.** | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae am i'r negodiadau ar y materion hyn eu cyflawni. It covers some additional areas to those covered by the European Commission including existing contracts for the supply of nuclear material and spent fuel |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | and radioactive waste. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. |
| Judicial cooperation in civil and commercial matters<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael. | Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper<br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i achosion sy'n aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd y DU yn ymadael a chynigion ar gyfer cydweithredu parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth y DU os na chytunir ar bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben ond y |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol clos a chynhwysfawr. |
| Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn cymhwyso gweithdrefnau parhaus megis gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad y bydd y DU yn ymadael a sut y bydd y wybodaeth a geir drwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin. | Security law enforcement and criminal justice: Future Partnership Paper | Mae Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei bapur yntau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgil ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas ddyfnach a chydweithrediad ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd gyda gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Noda y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth yn y dyfodol yn ymwneud â diogelwch a diogelu data. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Ongoing Union and Judicial Procedures<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU ar adeg ymadael a chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus o ran sefydliadau'r Undeb, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU. Cynigiodd yr UE y dylai'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper.<br>13 Gorffennaf 2017 | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion yn aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd yn ymadael a ddylai barhau i ddod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop ac mae'n ceisio cael cytundeb ar feini prawf ynghylch y diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn gofyn am eglurhad o rôl Eiriolwr Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys yn ystod cyfnod pontio tra bod achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael yn ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad gadael. |
| Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 I'R DU | Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn berthnasol i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl iddi ymadael tra bod gweithgareddau | Privileges and Immunities<br>13 Gorffennaf 2017 | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniadau ac imiwneddau i eiddo, asedau a gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU am gyfnod trosiannol ar ôl iddi ymadael. Mae negodwyr ar y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU yn cael eu dirwyn i ben. | | agos at gyrraedd cytundeb ar y mater hwn. |
| Governance<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau ar gyfer y Cytundeb Gadael, gan gynnwys sefydlu Cyd-bwyllgor i ystyried anghydfodau. Dywed y dylai'r Cyd-bwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol lle na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Noda y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinesydd. | **Enforcement and Dispute resolution: Future Partnership Paper**<br>**23 Awst 2017** | Mae'r Papur yn cynnwys cynigion ar gyfer mecanwaith gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen mecanwaith newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n datgan bod yn rhaid i orfodi neu ddatrys anghydfod ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date**<br>29 Mehefin 2017 i'r UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu ar y dyddiad ymadael. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper**<br>**21 Awst 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn datgan y dylid datrys y mater hwn o ran unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn gofyn am drafodaeth bellach ar ystyr "rhoi ar y farchnad" ac mae'n awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| **Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau y mae eu symudiad wedi dechrau cyn y dyddiad ymadael ond yn dod i ben ar neu ar ôl hynny. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper**<br>**21 Awst 2017**<br>**Future customs arrangements: Future Partnership Paper**<br>**15 Awst 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad argaeledd nwyddau yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau ar y farchnad ar adeg ymadael ond mae'n gwneud hynny mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater drwy drafodaethau am bartneriaeth ar gyfer yn y dyfodol. |
| **Guiding Principles transmitted to EU 27 for the Dialogue on Ireland/Northern Ireland.**<br>7 Medi i EU 27 | Egwyddorion sy'n sail i drafodaethau am y berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni chynigir unrhyw ddatrysiadau ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn | **Northern Ireland and Ireland: Position Paper**<br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU barhau, y dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na fydd hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon yn cael eu heffeithio gan barhad |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion. | | yr Ardal Deithio Gyffredin. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Noda na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Gwna gynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Awgryma y dylid cael cytundeb i barhau â chyllid PEACE ar gyfer Gogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon a hynny ar wahân i'r trafodaethau ehangach ar y setliad ariannol. |
| Public Procurement<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn berthnasol i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n parhau ar y dyddiad ymadael. | Dim. | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Intellectual Property Rights (including geographical indications)<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer parhau i ddiogelu hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael, gan gynnwys diogelu enwau gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn awgrymu y bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddomestig newydd gael ei sefydlu yn y DU cyn y dyddiad ymadael mewn perthynas ag enwau bwyd gwarchodedig. | Dim. | |
| Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | Confidentiality and access to documents: Position Paper 21 Awst 2017 | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewroepaiddd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad i ddogfennau fel sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim. | | Future Customs Arrangements: Future partnership paper<br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau ddewis posibl ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol. Trefniant tollau wedi'i symleiddio'n sylweddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaid neu bartneriaeth tollau newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | Undeb Ewropeaidd mewn ffordd sy'n golygu y byddai'n dileu'r angen am ffiniau tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu negodi ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.<br>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau o weddill y byd os mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r gyrchfan derfynol. Noda y byddai hyn yn ddigynsail a gallai fod yn heriol i'w weithredu ond mae'n dymuno ei drafod gyda'r Undeb Ewropeaidd.<br>Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau yr Undeb Ewropeaidd am gyfnod pontio er mwyn osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim. | | The exchange and protection of personal data: Future partnership paper<br>24 Awst 2017 | Yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer model newydd o gyfnewid a diogelu data personol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar ddull cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim. | | Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper<br>6 Medi 2017 | Mae'n amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesi gyda'r UE. Noda y dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Noda y bydd angen negodi mynediad parhaus y DU i raglenni ymchwil ac arloesi'r Undeb Ewropeaidd ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen cydbwyso'r cyfraniad hwn yn erbyn blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad Prifysgolion Cymru |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim. | | **Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper**<br>12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ac amddiffyniad sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd gyda gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyniad, diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim. | | **Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT and excise regimes**<br>9 Hydref 2017 | Mae'r **Papur Gwyn ar y Bil Tollau** yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb gyda'r Undeb |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | Ewropeaidd ar berthynas fasnachol ar gyfer y dyfodol. |
| Dim. | | **Paratoi ar gyfer ein polisi masnach yn y DU yn y dyfodol** 9 Hydref 2017 | Mae'r **papur gwyn ar y polisi masnach** yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd ac yn nodi pa ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd. |

# 3. Materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

Yn ei waith hyd yn hyn ar oblygiadau Brexit i Gymru, mae materion yn ymwneud â threfniadau masnachu presennol a threfniadau masnachu ar gyfer y dyfodol wedi bod o ddiddordeb arbennig i waith y Pwyllgor. Ar 9 Hydref cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddau bapur gwyn ar dollau a masnach.

Mae'r Papur Gwyn ar y Bil Tollau yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Papur Gwyn:

- Yn amlinellu y bydd angen Bil annibynnol gan fod Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn gwahardd yn benodol y defnydd o'r pwerau rheoleiddio a gynhwysir ynddi rhag cael eu defnyddio i gyflwyno trethi newydd;
- Yn datgan y bydd y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth fframwaith gyda phwerau dirprwyedig eang i Weinidogion y DU gyflwyno isddeddfwriaeth fanwl ar weinyddu, gorfodi a chasglu tollau tramor, TAW a thollau cartref newydd;
- Yn amlinellu y bydd y pwerau dirprwyedig yn cynnwys pwerau Harri VIII i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol er mwyn ystyried unrhyw gytundeb a wneir gyda'r Undeb Ewropeaidd;
- Yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i ystyried unrhyw oblygiadau yn sgil y Bil i lywodraethau datganoledig;
- Yn datgan, yn ychwanegol at ddyletswyddau tollau, y bydd y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU gyflwyno tariffau a chwotâu newydd yn unol â pholisi masnachu newydd;
- Yn amlinellu y bydd darpariaethau'r Bil yn efelychu Cod Tollau Tramor yr Undeb Ewropeaidd yn bennaf ac yn amrywio dim ond lle bo angen er mwyn darparu sicrwydd i fusnesau;
- Yn datgan, er y bydd y Bil yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion y DU weithredu unrhyw gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd y Bil yn gallu cael ei ddrafftio mewn ffordd sy'n gweithredu'r ail ddewis o'r ddau opsiwn tollau a gynhwysir ym mhapur partneriaeth Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar dollau tramor gan fod yr opsiwn hwn yn rhy newydd a byddai angen mwy o waith a deddfwriaeth er mwyn ei roi ar waith;
- Yn cadarnhau y bydd y Bil yn cynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer senario dim bargen, gan gynnwys rhoi pwerau i Weinidogion y DU i gyflwyno systemau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno rhaghysbysiadau o lwythi; datganiadau diogelwch a sicrwydd cyn i lwythi gyrraedd, a mesurau newydd ar gyfer y TAW a'r tollau a godir ar barseli bach a anfonir rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r papur gwyn ar y polisi masnach yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd ac yn nodi pa ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd:

- **Masnach sy'n dryloyw ac yn gynhwysol** : mae'r papur yn nodi y bydd Llywodraeth y DU yn cynnal negodiadau masnach a pholisi mewn modd tryloyw gan gynnwys i'r deddfwrfeydd datganoledig ond nid yw'n nodi mecanwaith penodol ar gyfer sut y bydd yn gwneud hyn.

– **Cefnogi amgylchedd masnachu byd-eang sy'n seiliedig ar reolau**: bydd y DU yn cynnal yr ymrwymiadau a wnaed yn rhinwedd ei haelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd ac yn sicrhau ei bod wedi gweithredu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol er mwyn cau unrhyw fylchau yn yr ymrwymiadau a wnaed o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

– **Hybu perthnasoedd masnachu:** dywed y papur y bydd y DU yn chwilio am berthnasau masnachu newydd ac y bydd yn dechrau trafodaethau ar y rhain yn ystod unrhyw gyfnod gweithredu. Mae'n nodi y bydd gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau yn ogystal â chyrff cyhoeddus megis y GIG.

– **Cefnogi gwledydd sy'n datblygu:** bydd mynediad ffafriol yn parhau i gael ei gynnig i wledydd sy'n datblygu er mwyn cefnogi eu datblygiad economaidd. Bydd angen deddfwriaeth i ganiatáu i'r DU ddatblygu systemau annibynnol ar gyfer hyn.

– **Sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn yr un modd:** bydd y DU yn sefydlu systemau ar gyfer rhwymedïau ac anghydfodau masnach sy'n efelychu'r gweithdrefnau a'r rhwymedïau presennol sydd ar gael i fusnesau'r DU yn rhinwedd aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r papur yn amlinellu y bydd angen deddfwriaeth i: ganiatáu i'r DU weithredu gofynion Cytundeb Caffael y Llywodraeth a gytunwyd gan aelodau Sefydliad Masnach y Byd; sefydlu fframweithiau remedi masnach ar gyfer y DU; sicrhau bod pwerau'n bodoli i orfodi a sicrhau cyfrinachedd ag anghydfodau masnach ryngwladol; cyflwyno cynllun mynediad ffafriol; er mwyn galluogi'r Adran Masnach Ryngwladol i ymgymryd â rhai swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd a; galluogi creu system sancsiynau masnach effeithiol.

Maes arall sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor yw ei waith craffu ar gyfarfodydd rhynglywodraethol a chytundeb rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ar y negodiadau. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar negodiadau Ewropeaidd, JMC EEN, ers mis Chwefror ar 16 Hydref. Bydd yr egwyddorion a fydd yn sail i gytundebau ar fframweithiau polisi yn y DU ar ôl Brexit yn gosod y paramedrau ar gyfer cytuno ar bolisïau ar feysydd allweddol fel amaethyddiaeth, diogelu'r amgylchedd a physgodfeydd. Mae'r testun a gytunwyd yn nodi:

– Y bydd Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn cydweithio i sefydlu dulliau gweithredu cyffredin mewn rhai meysydd sy'n cael eu llywodraethu ar hyn o bryd gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ond sydd fel arall mewn meysydd sydd â chymhwysedd datganoledig;

– Gellir gweithredu fframweithiau drwy ddeddfwriaeth, camau gweithredol, memoranda cyd-ddealltwriaeth neu drwy ddulliau eraill;

– Bydd y trafodaethau yn rhai amlochrog rhwng pob llywodraeth neu'n rhai dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a llywodraeth ddatganoledig;

– Bydd fframweithiau'n parchu setliadau datganoli ac atebolrwydd democrataidd deddfwrfeydd datganoledig, yn parchu'r broses cydsyniad deddfwriaethol ac yn cynnal hyblygrwydd cyfatebol o leiaf ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol pob tiriogaeth;

– Cydnabod y cysylltiadau economaidd a chymdeithasol rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon.

# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau

Ar **16-17 Hydref, ymwelodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford**, â Brwsel i gynnal trafodaethau gydag aelodau allweddol Senedd Ewrop, Cynrychiolydd Parhaol Llywodraeth y DU yn yr Undeb Ewropeaidd, Tim Barrow ac i draddodi araith mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Ganolfan Polisïau Ewropeaidd a Chanolfan Llywodraethiant Cymru ar Brexit a datganoli. Wrth sôn am yr ymweliad dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr ymweliad yn gyfle i dynnu sylw at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit, gan gynnwys mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl, mudo cyfrifol a chytundeb ar gyfnod pontio. Galwodd Ysgrifennydd y Cabinet ar lywodraeth y DU i roi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru i ddangos y byddai peidio â bod yn rhan o'r Undeb Tollau gyda'r Undeb Ewropeaidd yn fanteisiol yn yr hirdymor. Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet ei gred nad yw'r sefyllfa o ddim cytundeb yn hyfyw.

Mewn perthynas â pharatoi ar gyfer gwahanol senarios a chanlyniadau'r negodiadau **dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cynulliad ar 17 Hydref** fod gweithgor Llywodraeth Cymru ar Ymadael â'r UE yn edrych ar wahanol sefyllfaoedd ond dywedodd 'nid oes unrhyw liniaru ar gyfer dim cytundeb'.

Mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar Negodiadau Ewropeaidd, JMC EN, **dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol** fod y cyfarfod yn:

> *'... gyfle i ailosod y berthynas waith, a chynnwys y gweinyddiaethau datganoledig wrth ddatblygu safbwynt negodi ar gyfer ymadael â'r UE.'*